

**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 7fed Chwefror 2018 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl yn dechrau am 6.00pm.

### **YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. R. James (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A.S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Ms J. L. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref  
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

#### **110. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr J. Ball, Ms. J. Hughes, Mrs D. L. King, a B. Mellor.

#### **111. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

#### **112. RHYDDFREINWRAIG ANHRYDEDDUS Y RHYL**

Ymhellach i gofnod rhif 92 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20fed Rhagfyr 2017, cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r Rhaglen) a gofyn bod y Cyngor yn cymeradwyo'n ffurfiol y penderfyniad i roddi teitl "Rhyddfreinwraig Anhrydeddus" i un o drigolion y Rhyl a enwyd.

Dywedodd y Clerc bod yr unigolyn wedi cadarnhau y byddai wrth ei bodd yn derbyn yr anrhydedd a bod y ddeddfwriaeth yn gofyn bod y cyfarfod arbennig hwn yn cael ei alw i gael o leiaf dwy rhan o dair o'r aelodau a oedd yn bresennol i bleidleisio o blaid rhoi'r teitl iddi. Unwaith y byddai wedi ei gadarnhau, byddai cyhoeddiad ffurfiol yn cael ei wneud yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor gan y Maer newydd ac yng nghyfarfod y Cyngor ar 20fed Mehefin, byddai'r cyflwyniad yn digwydd.

Gofynnodd Clerc y Dref i'r Aelodau gadw enw'r unigolyn yn gyfrinachol tan ar ôl Cyfarfod Blynyddol y Cyngor.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r penderfyniad a gymerwyd yng nghyfarfod y Cyngor ar 20fed Rhagfyr 2017.

#### **113. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:.....

Dyddiad: .....